# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 8 Ionawr 2018

## SL(5)156 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy ddefnyddio Atodlen 4 newydd (Ffigurau'r Boblogaeth Oedolion).

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar**: 28 Tachwedd 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 30 Tachwedd 2017

**Yn dod i rym ar**: 31 Rhagfyr 2017